**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Cyng Ian Roberts
Llefarydd addysg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

11 Medi 2023

**Plant a phobl ifanc yn fêpio mewn ysgolion**

Annwyl Cyng Roberts

Rydym yn ymwybodol o achosion o blant a phobl ifanc yn fêpio mewn ysgolion. Yn ddiweddar, nododd un o'n Haelodau enghraifft o blant mor ifanc ag 8 oed yn fêpio yn yr ysgol. Wrth reswm, mae hyn yn bryder mawr inni. Rwyf wedi codi'r materion hyn yn anffurfiol gyda'r Gweinidog Addysg a'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, ac rwy'n deall eu bod nhw hefyd yn ymwybodol o'r materion hyn.

Mae gennym ddiddordeb yn yr hyn y gellir ei wneud mewn ysgolion i fynd i'r afael â'r mater, ac mae gennym ddiddordeb hefyd yn yr hyn sy'n cael ei wneud i atal gwerthu e-sigaréts i bobl dan 18 oed. Byddem yn croesawu rhagor o wybodaeth am sut y mae safonau masnach ledled Cymru yn mynd i'r afael â gwerthu e-sigaréts yn anghyfreithlon i bobl dan 18 oed. Byddai gennym ddiddordeb hefyd mewn unrhyw ddata neu wybodaeth a allai fod gennych am hyd a lled y mater hwn.

A allwch hefyd amlinellu pa waith y mae Safonau Masnach ledled Cymru yn ei wneud i ymdrin â gwerthu e-sigaréts anghyfreithlon a heb eu rheoleiddio? Rydym yn poeni'n benodol y gall y rhain yn aml fod mewn blasau sy'n fwy deniadol i blant a phobl ifanc na'r rhai sydd ar gael yn gyfreithlon.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cais hwn, mae croeso ichi gysylltu â chlercod y Pwyllgor drwy anfon e-bost i SeneddPlant@senedd.cymru

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymateb erbyn 11 Hydref.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn gywir,

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.